

## Laurence Cox

Mae Laurence yn brif hyrwyddwr yn ystod y cwrs Dadansoddi Strategol ym maes Busnes ac mae hefyd yn fentor NWBA Bu hefyd yn rhan o Academi Busnes Gogledd Cymru ers 2017, gan weithio gyda dros 100 o sefydliadau ar y rhaglen yn ogystal â mentora dros 40 o'r busnesau hynny, gan eu helpu i symud ymlaen mewn meysydd o ddatblygiad Strategol a newid diwylliant i drosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall mewn busnes teuluol. Mae hefyd wedi cyflwyno'r cyrsiau gwasanaeth cwsmer a marchnata busnes Cam 2 fel rhan o'r Academi. Mae Laurence hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc, yn eu helpu i ddeall yr hyn sy'n gysylltiedig gyda gosod i fyny a rhedeg eu busnes eu hunain ac mae hefyd yn ddarlithydd ar y cwrs awyr agored lefel 3 yn GLLM, eto yn gweithio gyda phobl ifanc.

Yn flaenorol, mi wnaeth Laurence sylfaenu a rhedeg, Serenvanture, cwmni antur awyr agored, yn gweithredu yn Eryri, Ardal y Llynnoedd a'r Alban. Roedd ei yrfa gorfforaethol yn cynnwys gweithio ar gyfer Virgin Retail, Rheoli Prynau a Manwerhtu ac hefyd ar gyfer Entertainment UK, fel Prynwr a Rheolwr Masnachu, gan weithio gyda Woolworth, Comet, Tesco a Sainsbury ymysg eraill i'w helpu i lwyddo gyda eu cwsmeriaid.

Mae Laurence yn elwa o'i brofiad mewn cwmnïau bach a mawr wrth helpu sefydliadau a'u pobl i lwyddo.

## Mike Scott

Mae Mike yn fentor ar y Dadansoddi Busnes Strategol ac yn cyflwyno modiwlau Gwasanaeth Cwsmer Cam 2 ar gyfer Academi Busnes Gogledd Cymru.

Mae wedi gweithio yn y maes hyfforddiant a datblygiad masnachol am dros 25 mlynedd. Yn ogystal â pherfformio o fewn y sectorau Coleg a Phrifysgol mae wedi darparu hyfforddiant, a chefnogaeth ymgynghorol i sefydliadau mawr a busnesau bach a chanolig.

Arbenigeddau Mike yw rheoli datblygiad, rheoli ansawdd, gwelliant parhaus a gwasanaeth cwsmer. Mae ei arddull cyflwyno yn rhyngweithiol iawn ac mae'n canolbwyntio ar gael canlyniadau busnes gwirioneddol o'i holl ymdrechion.

## Chris Walker

Chris yw ein prif hwylusydd a mentor SBA, yn ogystal â thiwtor ar nifer o fodiwlau NWBA. Mae'n hynod o brofiadol mewn datblygu busnesau a sefydliadau, gan ddarparu gwasanaethau ymgynghorol i nifer o gwmnïau adnabyddus fel ExxonMobil, Unilever, Red Bul, Speedo, M&S, Burtons, Boots, NHS, BP, Shell a Shell International, International Stock Exchange, CIPD, Reebok Max Planck Institute, Body Shop, Citibank, Price Waterhouse-Coopers, Deloitte Touche, Accenture, Schlumberger, SC Johnson, Proctor & Gamble.

Mae holl sgiliau Chris yn pontio'r bwch rhwng busnes a'r byd academiaidd. Mae'n gwybod sut i redeg busnesau, bychain a rhyngwladol, sut i ddysgu busnes i'r cwmni mwyaf yn y byd – ExxonMobil a dysgu/darlithio mewn prifysgolion o safon ryngwladol. Mae gan Chris brofiad personol o sefydlu a rhedeg busnesau rhyngwladol llwyddiannus a gweithio ar y lefelau uchaf fel ymgynghorydd, darlithydd, arweinydd gweithdai, hwylusydd a hyfforddwr gweithredol, i gwmnïau sy'n flaenllaw yn rhyngwladol, ac i brifysgolion o amgylch y byd.

## **Lesley Rider**

Mae Lesley wedi bod yn ymgynghori a darlithio ledled y byd ar arferion a thechnegau strategaethau, projectau a rheoli rhaglenni. Roedd hi wedi'i lleoli yn Ne Affrica am dros 30 mlynedd, ond mae hi bellach wedi dychwelyd i'r lle y ganed hi.

Mae ei phrofiad yn cynnwys: darparu hyfforddiant a gwasanaethau mentora; hwyluso gweithdai strategaethau a chynllunio; ymgynghori ar strategaethau, rhaglenni a rheoli projectau; arweinyddiaeth, rheoli doniau ac asesu cymhwyster. Mae wedi gweithio gydag ystod eang o fathau o brojectau, sefydliadau a diwydiannau, yn cynnwys: cwmnïau corfforaethol byd-eang megis Barclays Bank, Sasol, Sandvik and Anglo American Group; entrepreneuriaid cymdeithasol; rhoddwyr megis GTZ, European Union Aid, Millennium Challenge Corporation (USAid); adrannau'r llywodraeth yn Ne Affrica, y DU, Kenya ac ar y cyd gyda rhoddwyr mewn gwledydd megis Mongolia, Burkina Faso, Lesotho, Mozambique; projectau o bob maint hyd at US\$500 miliwn.

Dros yr 20+ mlynedd ddiwethaf mae wedi bod yn weithgar yn y gwaith o ddatblygu safonau ac ymarferion lleol a rhyngwladol ar gyfer Rheoli Projectau.